# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn

## Adnodd Symbolau CCUHP

Mae adnodd symbolau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi cael ei greu i'w ddefnyddio er mwyn cyfathrebu drwy symbolau.

Pwrpas y manylion ar gefn y cerdyn yw helpu hwylusydd i ddeall CCUHP.

Bu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ymarferwyr yn helpu i addasu 42 erthygl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn symbolau.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn

## Nodau allweddol

Lluniwyd yr adnodd Symbolau CCUHP yma i wneud y canlynol:

- Cyd-fynd â fersiwn ysgrifenedig lawn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

- Datblygu dealltwriaeth plant a phobl ifanc o beth mae hawliau'n golygu iddyn nhw, a'u cysylltiad â'u bywydau pob dydd


- Personoli'r hawliau, fel eu bod nhw'n addas i anghenion plant neu bobl ifanc unigol.

Gall adnodd Symbolau CCUHP gael ei ddefnyddio gan addysgwyr, gweithwyr cefnogi, gweithwyr ieuenctid ac ymarferwyr, sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn





## 1 Mae hawliau gan bawb sydd o dan 18 oed


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

# 1 Mae hawliau gan bawb sydd o dan 18 oed




O dan CCUHP, ystyr plentyn yw pob bod dynol o dan 18 oed.




Mae gan blentyn yr holl hawliau sydd yn CCUHP nes eu bod nhw'n 18 oed.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 2 Mae gan bob plentyn yr hawliau yma, beth bynnag yw eu gwahaniaethau

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland


# 2 Mae gan bob plentyn yr hawliau yma, beth bynnag yw eu gwahaniaethau



Mae CCUHP yn berthnasol i bawb o dan 18 oed, heb eithriadau.




Dylai llywodraethau sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'w hawliau.



Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu yn eu herbyn.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**


# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 3 Rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i fi

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Children & Young People's Commissioner Scotland


# 3 Rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i fi



Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau, dylen nhw feddwl am sut mae hynny'n effeithio ar blant, a gwneud beth sydd orau iddyn nhw.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 www.widgit.com

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 4 Rhaid i lywodraethau ddiogelu a pharchu fy hawliau


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 4 Rhaid i lywodraethau ddiogelu a pharchu fy hawliau




Rhaid i lywodraethau sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diogelu.



Rhaid iddyn nhw sicrhau bod pobl eraill yn parchu hawliau plant.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 5 Dylai fy nheulu helpu fi i wybod am fy hawliau a'u defnyddio

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

# 5

# Dylai fy nheulu helpu fi i wybod am fy hawliau a'u defnyddio


Dylai llywodraethau gefnogi fy rhieni i'm helpu i wireddu fy hawliau.




Dylai fy nheulu fy nghefnogi i wybod am fy hawliau a'u defnyddio, a gwneud mwy o benderfyniadau drosof fy hun, wrth i fi fynd yn hŷn.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 6 Mae gen i hawl i fyw a thyfu fel person


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Children & Young People's Commissioner Scotland

# 6

# Mae gen i hawl i fyw a thyfu fel person




Mae gan blant hawl i gael bywyd.



Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn datblygu ac yn tyfu'n iach, a dylen nhw eu hamddiffyn rhag pethau a allai achosi niwed iddyn nhw.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 7 Mae gen i hawl i enw ac i berthyn i wlad


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 7 Mae gen i hawl i enw ac i berthyn i wlad



Dylai llywodraethau sicrhau bod gen i enw a chenedligrwydd sydd wedi'u cofrestru'n gyfreithlon.



Mae gan blant hawl i wybod pwy yw eu rhieni.



Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 8 Mae gen i hawl i hunaniaeth


# 8 Mae gen i hawl i hunaniaeth

**Dylai llywodraethau barchu hawl plant i'w henw a'u cenedligrwydd eu hunain.**
**Dylai eu clymau teuluol gael eu parchu.**

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 9

Mae gen i hawl i fyw gyda fy nheulu os gallan nhw gadw fi'n ddiogel


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland


# 9 Mae gen i hawl i fyw gyda fy nheulu os gallan nhw gadw fi'n ddiogel



Ddylai llywodraethau ddim gwahanu plant oddi wrth eu rhieni ond os hynny yw'r peth gorau iddyn nhw.




Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn gallu bod mewn cysylltiad â'u rhieni os nad ydyn nhw'n byw gyda nhw.



Mewn trafodaethau am wahanu, dylai plant gael cyfle i'w barn gael ei chymryd i ystyriaeth pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 10

Mae gen i hawl i weld fy rhieni os ydyn nhw'n byw mewn gwlad arall


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 10 Mae gen i hawl i weld fy rhieni os ydyn nhw'n byw mewn gwlad arall




Dylai llywodraethau adael i deuluoedd symud rhwng gwledydd er mwyn i rieni a phlant fedru cadw mewn cysylltiad.



Os oes gan blant rieni sy'n byw mewn gwledydd gwahanol, mae ganddyn nhw hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau ohonyn nhw.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 www.widgit.com


# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




11

Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghymryd allan o'm gwlad yn anghyfreithlon

# 11 Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghymryd allan o'm gwlad yn anghyfreithlon


Dylai llywodraethau wneud popeth gallan nhw i stopio plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwlad eu hunain yn anghyfreithlon.

Dylai llywodraethau weithio gyda llywodraethau eraill i wneud yn siŵr bod hyn ddim yn digwydd.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




12 Mae gen i hawl i gael gwrandawiad, ac i gael fy nghymryd o ddifri


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland


# 12 Mae gen i hawl i gael gwrandawiad, ac i gael fy nghymryd o ddifri



Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar blant, dylen nhw ofyn eu barn.



Dylai oedolion gymryd barn plant i ystyriaeth wrth wneud y penderfyniad.



Dylai plant gael eu cefnogi i roi eu barn yn y ffordd orau iddyn nhw.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 13 Mae gen i hawl i gael gwybodaeth a rhannu fy marn

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 13


## Mae gen i hawl i gael gwybodaeth a rhannu fy marn




Dylai llywodraethau helpu plant i gael y wybodaeth mae nhw angen, a sicrhau bod y wybodaeth mae nhw'n cael drwy'r rhyngrwyd neu gyfryngau eraill yn gywir.




Dylai llywodraethau adael i blant gael mynediad at wybodaeth a'i rhannu, oni bai ei bod yn niweidiol iddyn nhw neu i rywun arall.

Ddylai llywodraethau ddim stopio plant rhag dweud beth maen nhw'n meddwl.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 14


Mae gen i hawl i gael fy meddyliau a'm cred fy hun, ac i ddewis fy nghrefydd, gyda help fy rhieni

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 14


## Mae gen i hawl i gael fy meddyliau a'm cred fy hun, ac i ddewis fy nghrefydd, gyda help fy rhieni



Dylai llywodraethau sicrhau bod neb yn atal plant rhag ymarfer eu crefydd neu eu cred. Dylai rhieni roi arweiniad i'w plant ar hyn.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 15 Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 15 Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau



Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn gallu cwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau neu fudiadau.



Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn gallu cwrdd â phobl eraill yn ddiogel mewn mannau cyhoeddus i brotestio'n heddychlon pan fyddan nhw eisiau newid pethau.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 16 Mae gen i hawl i gadw rhai pethau'n breifat



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 16 Mae gen i hawl i gadw rhai pethau'n breifat




Dylai fod cyfreithiau i sicrhau bod dyddiaduron, negeseuon ar-lein a galwadau ffôn plant yn aros yn breifat.

Dylai llywodraethau amddiffyn plant rhag ymosodiadau yn eu herbyn nhw, eu ffordd o fyw a'u cartref.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 17

## Mae gen i hawl i dderbyn gwybodaeth mewn llawer o ffyrdd, tra bod hynny'n ddiogel


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 17 Mae gen i hawl i dderbyn gwybodaeth mewn llawer o ffyrdd, tra bod hynny'n ddiogel




Dylai plant fedru cael mynediad at wybodaeth maen nhw'n gallu ei deall ar y teledu, y radio, mewn llyfrau a phapurau newydd ac ar y rhyngrwyd.



Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pethau a allai eu niweidio.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 18


Mae gen i hawl i gefnogaeth gan y ddau riant, os yw hynny'n bosibl

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


Children & Young People's Commissioner Scotland

# 18

# Mae gen i hawl i gefnogaeth gan y ddau riant, os yw hynny'n bosibl




Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb am fagu plant. Dylai rhieni bob amser ystyried beth sydd orau i bob plentyn.



Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi i fod yn rhieni gwell.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 19 Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag niwed neu driniaeth wael


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 19

# Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag niwed neu driniaeth wael






Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn derbyn gofal priodol. Dylai fod cyfreithiau i amddiffyn plant rhag trais, camdriniaeth ac esgeuluso gan oedolion.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 20


Mae gen i hawl i dderbyn gofal os wyf fi'n methu byw gyda fy nheulu fy hun

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


Children & Young People's Commissioner Scotland

# 20

# Mae gen i hawl i dderbyn gofal os wyf fi'n methu byw gyda fy nheulu fy hun




Os yw plant yn methu derbyn gofal gan eu teulu eu hunain, rhaid iddyn nhw gael gofal priodol, gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith.



Dylai llywodraethau sicrhau bod gofal amgen ar gael iddyn nhw.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 21 Mae gen i hawl i'r gofal gorau os caf fi fy mabwysiadu

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


Children & Young People's Commissioner Scotland

# 21

# Mae gen i hawl i'r gofal gorau os caf fi fy mabwysiadu




Os caiff plentyn ei fabwysiadu, rhaid mai'r ystyriaeth gyntaf yw beth sydd orau iddyn nhw.



Dylai'r un rheolau fod yn berthnasol p'un a ydyn nhw'n cael eu mabwysiadu yn y wlad lle cawson nhw eu geni neu os byddan nhw'n symud i wlad arall.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 www.widgit.com

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 22

Os wyf fi'n ffoadur, mae gen i hawl i help, amddiffyniad a'r un hawliau â phlant a gafodd eu geni yn y wlad hon

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

# 22

# Os wyf fi’n ffoadur, mae gen i hawl i help, amddiffyniad a’r un hawliau â phlant a gafodd eu geni yn y wlad hon





Os bydd plentyn yn dod i fyw mewn gwlad arall fel ffoadur, dylen nhw gael yr un hawliau â phlant a aned yn y wlad honno, yn ogystal ag amddiffyniad arbennig fel ffoadur.

Dylai llywodraethau geisio helpu i ddod o hyd i deulu unrhyw blentyn sy’n ffoadur.


Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 23 Os wyf fi'n anabl, mae gen i hawl i ofal ac addysg arbennig

# 23 Os wyf fi'n anabl, mae gen i hawl i ofal ac addysg arbennig



Dylai plant anabl gael eu cefnogi i gyflawni hyd eithaf eu potensial, a dylai gweithgareddau gydag eraill gael eu darparu ar eu cyfer, fel eu bod nhw'n gallu cyfranogi'n weithredol yn eu cymuned.



Dylai llywodraethau sicrhau bod plant anabl yn derbyn addysg, gofal iechyd a chyfleoedd i ymlacio, chwarae a gwneud gweithgareddau eraill.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 24


Mae gen i hawl i fod mor iach â phosib

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


Children & Young People's Commissioner Scotland

# 24

# Mae gen i hawl i fod mor iach â phosib



Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn gallu cael gofal iechyd o safon dda.



Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael bwyd maethlon ac amgylchedd glân, er mwyn iddyn nhw fedru cadw'n iach.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 25

Os nad wyf fi'n byw gyda fy nheulu, dylai pobl wirio'n gyson mod i'n ddiogel ac yn hapus

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 25 Os nad wyf fi’n byw gyda fy nheulu, dylai pobl wirio’n gyson mod i’n ddiogel ac yn hapus



**Os yw plant mewn gofal, dylai awdurdodau lleol wirio’n rheolaidd sut maen nhw’n dod ymlaen. Dylai llywodraethau sicrhau bod hyn yn digwydd.**

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 26


Os bydd angen hynny ar fy nheulu, dylen nhw gael arian i helpu i fagu fi.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 26

# Os bydd angen hynny ar fy nheulu, dylen nhw gael arian i helpu i fagu fi.



Dylai llywodraethau helpu teuluoedd plant os ydyn nhw'n methu fforddio'r holl bethau mae arnyn nhw eu hangen i ymateb i anghenion corff a meddwl.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 27


Mae gen i hawl i gael cartref addas, bwyd a dillad

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 27


## Mae gen i hawl i gael cartref addas, bwyd a dillad



Dylai llywodraethau sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad at dai da, bwyd iach a dillad cynnes.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 28


Mae gen i hawl i gael addysg

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


Children & Young People's Commissioner Scotland

# 28


## Mae gen i hawl i gael addysg

Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn gallu cael addysg heb fod hynny'n costio arian i'w teulu.





Dylai ysgolion barchu fy urddas.




Dylai plant fedru aros mewn addysg uwchradd mor hir ag maen nhw'n dymuno.


Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn





**29** Mae gen i hawl i addysg sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, y doniau sydd gen i, a'm galluoedd


# 29 Mae gen i hawl i addysg sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, y doniau sydd gen i, a'm galluoedd



Dylai addysg ddatblygu parch plant at hawliau dynol pobl eraill.




Dylai addysg ddatblygu parch plant at yr amgylchedd.



Dylai plant ddysgu am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn





**30** Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun ac i ddilyn ffordd fy nheulu o fyw


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

# 30


# Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun ac i ddilyn ffordd fy nheulu o fyw

Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn gallu dysgu iaith, crefydd a diwylliant eu teulu os yw hynny'n wahanol i eiddo'r rhan fwyaf o bobl yn y wlad lle maen nhw'n byw.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 31 Mae gen i hawl i orffwys, ymlacio a chwarae


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland



# 31 Mae gen i hawl i orffwys, ymlacio a chwarae




Dylai oedolion sicrhau bod plant yn cael cyfle i chwarae ac ymlacio mewn amgylchedd diogel, cefnogol, sy'n eu hysgogi.

Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn gallu bod yn rhan o weithgareddau diwylliannol ac artistig.

Pan wneir penderfyniadau ynghylch gweithgareddau yn y gymuned, dylai oedolion gynnwys plant wrth eu cynllunio.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 www.widgit.com

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 32

Mae gen i hawl i beidio â gorfod gweithio oni bai mod i'n ddigon hen a bod hynny'n ddiogel



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 32 Mae gen i hawl i beidio â gorfod gweithio oni bai mod i'n ddigon hen a bod hynny'n ddiogel



Dylai llywodraethau gytuno ar isafswm oed pryd y gall plant ddechrau gweithio. Dylen nhw ddweud am faint o oriau y caiff plant weithio.



Pan fydd plant yn ddigon hen, dylai fod cyfreithiau i sicrhau bod oedolion sydd ddim yn cadw at y rheolau hyn yn cael eu dirwyo.


Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




**33** Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus

# 33 Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus




Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn gwybod am gyffuriau peryglus.



Dylai llywodraethau amddiffyn plant rhag dod i gysylltiad â nhw.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 34


Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghyffwrdd mewn ffyrdd sy'n gwneud i fi deimlo'n anghyfforddus, yn anniogel neu'n drist

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


Children & Young People's Commissioner Scotland

# 34



## Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghyffwrdd mewn ffyrdd sy'n gwneud i fi deimlo'n anghyfforddus, yn anniogel neu'n drist

Dylai llywodraethau amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol.

Ddylai neb wneud unrhyw beth i gorff plant os nad ydyn nhw eisiau hynny, fel cyffwrdd â nhw neu dynnu lluniau ohonyn nhw.

Os yw plant wedi cael eu niweidio neu eu cam-drin, dylen nhw gael yr help sydd angen i ymadfer.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 35

Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghipio, fy ngwerthu na fy masnachu


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 35 Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghipio, fy ngwerthu na fy masnachu

Dylai llywodraethau sicrhau nad yw plant yn cael eu cymryd oddi wrth eu teulu'n anghyfreithlon.




Dylai llywodraethau sicrhau bod plant ddim yn cael eu gwerthu, eu cipio na'u masnachu.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 www.widgit.com

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 36

Mae gen i hawl i beidio â chael fy nefnyddio gan oedolion mewn ffyrdd sy'n fy niweidio

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland


# 36 Mae gen i hawl i beidio â chael fy nefnyddio gan oedolion mewn ffyrdd sy'n fy niweidio



Dylai llywodraethau amddiffyn plant rhag gwaith neu weithgareddau eraill a allai niweidio eu lles.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



37


Os bydda i'n torri'r gyfraith, mae gen i hawl i beidio â chael fy nghosbi mewn ffordd greulon neu ddiangen

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


Children & Young People's Commissioner Scotland

# 37

# Os bydda i'n torri'r gyfraith, mae gen i hawl i beidio â chael fy nghosbi mewn ffordd greulon neu ddiangen




Os bydd plant yn torri'r gyfraith, dylai llywodraethau sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg, eu cadw'n ddiogel, a'u bod nhw ddim yn cael eu rhoi yn y carchar gydag oedolion.



Dylai llywodraethau roi cymorth cyfreithiol i blant a sicrhau eu bod nhw'n gallu cysylltu â'u teulu.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 38 Mae gen i hawl i beidio ag ymuno â'r lluoedd arfog

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


Children & Young People's Commissioner Scotland

# 38


# Mae gen i hawl i beidio ag ymuno â’r lluoedd arfog



Ddylai llywodraethau ddim recriwtio plant i’r lluoedd arfog.




Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael amddiffyniad ychwanegol pan fydd rhyfel neu wrthdaro arfog




Mae’r Pwyllgor ar Hawliau’r Plentyn wedi nodi’n eglur na ddylai unrhyw blentyn o dan 18 oed gael ei recriwtio i’r lluoedd arfog.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



## 39



Mae gen i hawl i dderbyn help i wella os wyf fi wedi cael fy anafu neu fy nhrin yn wael

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



Children & Young People's Commissioner Scotland

# 39

# Mae gen i hawl i dderbyn help i wella os wyf fi wedi cael fy anafu neu fy nhrin yn wael


Dylai fod gan lywodraethau gyfreithiau i amddiffyn plant rhag niwed.

Os ydyn nhw'n cael eu hanafu, eu hesgeuluso neu eu trin yn wael, dylai llywodraethau roi help arbennig i blant i wella.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 40 Mae gen i hawl i gael fy nhrin fel plentyn os bydda i'n torri'r gyfraith

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

# 40


# Mae gen i hawl i gael fy nhrin fel plentyn os bydda i'n torri'r gyfraith



Dylai llywodraethau sicrhau bod plant sy'n cael eu cyhuddo o dorri'r gyfraith yn cael mynediad at gyfreithiwr.




Dylai fod system gyfiawnder arbennig ar gyfer plant.




Dylai plant gael eu cadw rywle maen nhw'n methu mynd allan ohono dim ond pan fydd popeth arall wedi methu.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 www.widgit.com

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn



41


Os yw cyfreithiau fy ngwlad yn rhoi amddiffyniad gwell i fi nag erthyglau CCUHP, dylai'r cyfreithiau yna aros

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


Children & Young People's Commissioner Scotland

# 41

# Os yw cyfreithiau fy ngwlad yn rhoi amddiffyniad gwell i fi nag erthyglau CCUHP, dylai'r cyfreithiau yna aros




Mae'r hawliau a restrir yn CCUHP yn sylfaen i lywodraethau adeiladu arni.



Os oes gan lywodraethau gyfreithiau sydd hyd yn oed yn well na CCUHP, dylen nhw eu cadw.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




## 42 Dylai pawb wybod am hawliau plant


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# 42 Dylai pawb wybod am hawliau plant




Dylai llywodraethau sicrhau bod oedolion a phlant yn gwybod am CCUHP.



Dylen nhw sicrhau eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd briodol, weithredol.

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 www.widgit.com

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




# Goroesi


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

# Goroesi








Mae gen ti hawl i fywyd,
bwyd da, ac i dyfu'n iach

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn





# Datblygu


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# Datblygu








Mae gen ti hawl i addysg ac amser i ymlacio a chwarae

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn





# Cyfranogi


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# Cyfranogi







Mae gen ti hawl i ddweud sut wyt ti'n teimlo, cael dy glywed, a dy gymryd o ddifri

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**

# Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn




# Amddiffyn


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Children & Young People's Commissioner Scotland

# Amddiffyn









## Mae gen ti hawl i gael dy drin yn dda ac i beidio chael niwed gan neb

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**


# Geirfa




Fi




Cartref




Plant



Teulu



School



Rhieni

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**


# Geirfa




Llywodraeth




Country




Amddiffyniad



Deddf



Na



Fy

Widgit Symbols © Widgit Software Ltd. 2002 - 2023 **www.widgit.com**